CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 08 Ionawr 2018 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i Peter Howells, Ty-cam yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty dros gyfnod y Nadolig.

PLISMONA
Croesawyd Eleri Morgan i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol. Roedd rhai pwyntiau i roi sylw iddyn nhw:
Ceir yn rasio ar y mynydd.
Ceir yn parcio tu allan i'r Ysgol yn gynnar yn y prynhawn tua 2.50yp a cheir yn parcio ar y ffordd fawr o flaen Celtic Classics.
Yr oedd Eleri Morgan yn annog unrhyw un a oedd yn gweld unrhyw ddigwyddiad neu â thystiolaeth am ddigwyddiadau i gysylltu ar 101.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd hysbyseb yn gosod amodau ar gyfer cwblhau gwaith ar y Cae Chwarae wedi ymddangos a saith cais wedi dod i law.

GWEFAN LLANLLWNI:
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Tachwedd ar y wefan, ac wedi ymddangos yn 'Clonc' ac yn 'Clecs Bro Cader'.

NINANT – PONTDULAIS – TRO BEECHES:
Cafodd y Clerc gadarnhad gan Gyngor Sir Caerfyrddin na fyddai'n bosibl gosod llinellau dwbwl oherwydd bod y mannau yma yn rhy gul.

CINIO BLYNYDDOL:
Bydd y cinio blynyddol yn cael ei gynnal yn y *Belle Vue* ar 12 Ionawr am 8yh. ***7.***

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 12 Chwefror 2018 am 8.00yh.